

## **CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON**

COFNODION CYNGOR 4 GORFFENNAF 2017

### Presennol

Y Dirprwy Faer – Cyng E R Hughes

Cynghorwyr

W L Davies, W R Owen, W T Owen, A Hopcyn, C Williams, K Jones, C Larsen, J W Parry, K Richards, S Sage, R Thomas

**Siaradwr Gwadd : Geraint Roberts Parthed Gwaith  
Ymchwil i'r Golgofn**

Croesawodd y Dirprwy Faer Mr Roberts ir cyfarfod

Eglurodd ers iddo fod yn ymweld a'r Cyngor 4 mlynedd yn nol, ei fod wedi treulio oriau diri yn ymchwilio i mewn i'r enwau sydd ar y gofgolofn

Yn amlwg mae amseriad yr ymchwil yn holl bwysig gan fod 100 mlynedd ers diwedd y rhyfel mawr flwyddyn nesaf  
Eglurodd Mr Roberts ei fod bron a gorffen y gwaith ymchwil gwybodaeth am 7 yn anodd heb fynd i Lerpwl i ymchwilio ymhellach ai fod yn dymuno cynnig y gwaith ymchwil i'r Cyngor ac yn dymuno gweld rywbeth yn cael ei drefnu ar gyfer Tachwedd 2018

Angen meddwl sut fyddai ffordd orau o ddefnyddio'r gwybodaeth – llyfryn, arddangosfa, mynd o amgylch yr ysgolion?

Gofynnwyd nifer o gwestiynau gyda cefnogaeth frwd mewn egwyddor ir syniadau

Penderfynwyd i griw bychain gyfarfod a Mr Roberts dros cyfnod yr haf i edrych mewn i wahanol opsiynau a cael prisiau i gyflwyno yn nol i'r Cyngor more fuan ar ôl ail cychwyn yn ôl ym Mis Medi gan bod gwta flwyddyn i baratoi – Y Maer, Dirprwy Faer, Cyng K Jones, Cyng K Richards a Cyng C Larsen a'r clerc i ddod at ei gilydd efo Mr Roberts i drafod ymhellach

Diolchodd y Dirprwy Faer iddo ar ran pawb i ddiolch am ei amser

### **1. Ymddiheuriadau**

E Lovgreen, I C Thomas, B Owen, G Thomas, M Sarnacki

### **2. Cyhoeddiadau'r Maer**

- |           |  |
|-----------|--|
| 17.6.2017 | Diwrnod Lluoedd Arfog/<br>Armed Forces Day   |
| 18.6.2017 | Sul y Maer / Mayor's Sunday  |
| 24.6.2017 | Carnifal   |
| 28.6.2017 | AGM - Noddfa<br>Y Dirprwy Faer Cyng. Eiriona Hughes<br>yn cadeirio'r Cyfarfod yn absenoldeb y<br>Maer    |
| 1.7.2017  | Sioe Amaethyddol Gogledd Cymru<br>Y Dirprwy Faer Cyng. Eiriona Hughes<br>yn mynychu y sioe ar ran y Maer |

### **3. Datgan Buddiant Personol**

Cyng E R Hughes a Cyng J W Parry – cais Starliners

### **4. Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc). Er gwybodaeth neu i'r Clerc weithredu. Ni chaniateir penderfyniadau**

Cystadleuaeth Gerddi

### **5. Cofnodion**

I gadarnhau y cofnodion canlynol:-

- i. Cyngor 6 Mehefin 2017  
**Penderfynwyd**  
Derbyn fel rhai cywir ( unfrydol )

## 6. Cyfrifon

I gymeradwyo y biliau rhoddion a chyflogau i'w talu

### **Penderfynwyd**

Derbyn au talu ( unfrydol)

## 7. Cysoni Cyfrifon

### **Penderfynwyd**

Derbyn er gwybodaeth ( unfrydol)

## 8. Diffibriliwr

Eglurodd y clerc y cefndir sef bod Y cyn Faer Cyng W L Davies wedi hel arian yn ystod ei flwyddyn o Faerolaeth er mwyn prynu diffribilwr ir dref ac er nifer o drafferthion efo gwahanol gwmnïau mae bellach mewn sefyllfa i fedru cario mlaen. Rheswm mae'r eitem ger bron y cyngor ydi fydd na gostau cynhaliaeth i brynu padiau newydd ag ati fydd dim mwy na £50 y flwyddyn ac felly angen sêl bendith y Cyngor cyn parhau . Diolchodd Cyng W L Davies i'r Cyn Faer B Owen am ei chyfraniad tuag ato hefyd.

### **Penderfynwyd**

Cytuno i dalu unrhyw costau cysylltiedig (unfrydol)

## 9. Placiau Cymdeithas Dinesig

Derbyn llythyr yn gofyn i'r cyngor fabwysiadu'r placiau o dan ei polisi yswiriant ar gost ychwanegol o £30.71

### **Penderfynwyd**

Cytuno i wneud hyn a ceisio sicrhau bod plac Lewis Jones yn cael blaenoriaeth ganddynt (unfrydol)

## 10. Llythyr Seafarers

Pâr: Ffluo fflag 3yd Medi

### **Penderfynwyd**

Prynnu a ffluo'r flag (unfrydol)

## 11. Llythyr Maer Mora la Nova

Gofyn inni gefeillio - Gan ein bod eisoes wedi gefeillio a 2 le i diolch am y cynnig a

### **Penderfynwyd**

Gwrthod ond diolch am y cynnig (unfrydol)

## **12. Unllais Cymru**

- i) Cyrsiau hyfforddiant a dyddiadau
- ii) Gweithdy ar gwaredu gwastraff ymbelydrol artiffeddd uwch
- iii) Cyfarfod Blynnyddol

### **Penderfynwyd**

- i) enwau i'r clerc (unfrydol)
- ii) cynrychiolwyr unllais i fynychu sef Cyng W T Owen a Cyng S Sage (unfrydol)
- iii) Cyng W T Owen am fynychu (unfrydol)

## **13. Rhybudd o Gynnig Cyng. Ann Hopcyn**

Cafwyd trafodaeth eang ar y pwnc o sbwriel cyffredinol, bagiau bin yn cael eu rhoi allan noson cynt a gwyllanod yn eu difetha, gwm cnoi

### **Penderfynwyd**

Cychwyn dialog a swyddogion Cyngor Gwynedd i weld sut mae nhw yn ceisio cadw y lle yn lan ac yna weld sut allwn ni helpu (unfrydol)

## **14. E-bost gan HWB parthed WIFI**

Eglurodd y clerc bod ein cyflenwad presennol ni yn cael ei rannu er mwyn i ddefnyddwyr yr adeilad allu ei ddefnyddio felly yn bryderus na fuasai ddigon cryf

### **Penderfynwyd**

Rhoi caniatâd i Hwb edrych mewn i weld os ydi'r system digon cryf a cytuno ar y sail bod dim costau i'r cyngor (9 o blaid 2 ymatal)

## **15. Pris bocsys trydan newydd**

Eglurodd y clerc y cefndir bod dau focs trydan mewn cyflwr gwael ac bod angen ei ail wneud cyn y Nadolig nesaf

Er bod pris Cyngor Gwynedd yn ddrud toedd y clerc ddim yn ymwybodol o neb arall i allu ymwneud ar gwaith

### **Penderfynwyd**

Gan bod Iechyd a diogelwch yn bwysig i'r Cyngor symud ymlaen a pris Cyngor Gwynedd (unfrydol)

## **16. E-bost National Grid**

### **Penderfynwyd**

Derbyn er gwybodaeth (unfrydol)

17. **Cais ariannol Starliners** (wedi derbyn y manylion pellach)

**Penderfynwyd**

Cyfrannu £500 (unfrydol)

Aeth Cyng E R Hughes a Cyng J W Parry allan ar gyfer yr eitem yma a chafodd yr eitem ei gadeirio gan Cyng W L Davies

18. **Rhybudd o Gynnig Cyng. R. Thomas**

Parthed Lon Osgoi - gyda gohebiaeth gan Antur Waunfawr

**Penderfynwyd**

Cefnogi cynnwys y rhybudd (8 o blaid ,2 yn erbyn , 2 ymatal)

19. **Llyfryn Visit Wales**

Eglurodd y clerc y cefndir bod dyn busnes lleol wedi bod mewn cynhadledd yn ddiweddar lle oedd rhaglen “visit Wales” yn cael eu dosbarthu a siomedig iawn oedd nodi bod Caernarfon ddim yn cael lle teilwng yn y cynnwys

**Penderfynwyd**

Ysgrifennu yn nodi ein siom gan obeithio i’r dre hanesyddol yma gael lle fwy teilwng mewn copïau i’r dyfodol yn enwedig gan fod Caernarfon yn rhan o safle treftadaeth y byd (unfrydol)

20. **Cais Ariannol Gŵyl Arall 4 & 6**

**Penderfynwyd**

Cyfrannu £2000 (10 o blaid , 2 ymatal)

21. **Cyngor Iechyd Gymuned**

Datganiad i’r Wasg

**Penderfynwyd**

Derbyn er gwybodaeth (unfrydol)

22. **Rhybudd o Gynnig Cyng. W L Davies**

Pâr: Baw Cwn

**Penderfynwyd**

Cefnogi cynnwys y rhybudd (unfrydol)

23. **Cwestiynau**

Siŵr bod y cyngor yn falch weld gwaith wedi cychwyn ar yr hen Orchid Fashions ? Ydym

**24. Cystadleuaeth gerddi**

**Penderfynwyd**

Parhau ar trefniadau arferol (unfrydol)

(roedd Cyng W R Owen wedi gadael erbyn hyn)

Gorffenodd y cyfarfod am 7.18

Arwyddwyd .....Dyddiad .....